# Galwadau am ddata

Pam rydym yn ceisio data a sut y caiff eich data ei ddefnyddio.

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) sy'n gyfrifol am sicrhau bod y bwyd rydym yn ei fwyta yn ddiogel. I asesu hyn, mae angen data arnom i lywio asesiadau risg fel rhan o'r broses dadansoddi risg gyffredinol. Mae'r broses dadansoddi risg wedi'i chrynhoi fel siart llif gyda chofrestr o faterion asesu risg ar ein gwefan.

Mae casglu'r data hwn yn sicrhau bod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth a'r wybodaeth fwyaf priodol.

Rydym yn ceisio data ar lefelau'r halogion a geir mewn bwydydd yn bennaf. Bydd yn ein helpu i ddeall y sefyllfa ar lawr gwlad o ran halogiad cemegol mewn bwyd.

## Gan bwy rydym yn ceisio data

Rydym yn croesawu data, fel data am ddigwyddiadau (ar lefelau halogion mewn bwydydd), gan weithredwyr busnesau bwyd, arbenigwyr yn y maes, sefydliadau masnach, sefydliadau rhyngwladol a'r rheiny sy'n gwneud gwaith ymchwil mewn pwnc sy'n ymwneud â'r alwad am dystiolaeth.

## Sut rydym yn ceisio gwybodaeth

Rydym yn cyhoeddi galwadau am dystiolaeth ar ein gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn annog rhanddeiliaid i rannu'r manylion trwy e-bost neu ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Trin gwybodaeth

Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn cyhoeddi galwadau am ddata ar y cyd.

Bydd data a roddir i ni yn cael ei ddefnyddio i asesu ac adolygu materion diogelwch bwyd. Bydd y data'n cael ei ddefnyddio at y diben hwn yn unig ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn unrhyw amgylchiadau ar gyfer gorfodi o unrhyw fath. Bydd data a gesglir yn cael ei gyhoeddi fel data cyfanredol ac ni chaiff ei briodoli i unigolyn, busnes, corff masnach na sefydliad.

Byddwn yn cadw data gwyddonol am 20 mlynedd.

Yr ASB fydd rheolydd y data a bydd yn gyfrifol am gydymffurfio â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU a Deddf Diogelu Data 2018. Ni fydd y data'n cynnwys gwybodaeth bersonol, ac felly ni fydd GDPR yn berthnasol. Fodd bynnag, mae'n bosib y byddwn yn cael ein gorfodi i rannu data yn unol â chais rhyddid gwybodaeth.

## Galwadau am ddata

Tocsinau T-2 a HT-2 mewn bwyd